# Digartrefedd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3219A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015].

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw wedi datblygu dull cynaliadwy ac ataliol yn llawn i gyflawni hyn.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw wedi datblygu dull cynaliadwy ac ataliol yn llawn i gyflawni hyn 7

- Mae digartrefedd yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor. Mae wedi amlinellu ei uchelgais mewn sawl cynllun strategol sydd ganddo ac mae'n bwriadu parhau i ddatblygu gyda'i bartneriaid allweddol 7
- Mae llawer o faterion cymhleth ac anodd sy'n wynebu'r bobl ddigartref yng Nghaerffili ac, er bod y Cyngor yn ymwybodol ohonynt, nid yw ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion wedi eu gweithredu'n llawn eto 8
- Mae angen gwneud mwy, gan adeiladu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio gwaith ataliol integredig gyda phartneriaid, i fynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd yn y dyfodol 9
- Mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol â llawer o'i bartneriaid. Mae rhai wedi nodi meysydd y gellid eu gwella ymhellach i helpu i atal a lleihau digartrefedd nad yw'r Cyngor wedi eu gweithredu eto 10
- Mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu ei adnoddau yn rhagweithiol, ac mae'n datblygu ei ddealltwriaeth o'i ofynion am adnoddau yn y dyfodol 12
- Mae gan y Cyngor fframwaith er mwyn monitro a gwerthuso ei gynnydd ar ei uchelgais digartrefedd. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd hyn wedi'i effeithio gan ddiffyg cerrig milltir a thargedau clir 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Ym mis Ionawr 2018, nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar 'Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd' 'mai cymysg yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth ymateb i'r problemau a achoswyd gan ddigartrefedd, ond mai ffocws cyfyngedig sydd ar atal achosion sylfaenol digartrefedd.'[1]

2 Pwysleisia'r adroddiad fod 'deddfwriaeth yn canolbwyntio ar atal digartrefedd ond nid yw pob awdurdod wedi trefnu ei hun yn effeithiol i weithredu'r dyletswyddau newydd hyn yn llawn' a bod 'angen i awdurdodau lleol a phartneriaid ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd ond nid ydynt yn rhoi digon o sylw i hyn yn eu hymatebion strategol.'

3 Un o'r argymhellion yn yr adroddiad oedd i'r awdurdodau lleol nodi a chytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio i liniaru digartrefedd. Dylid adolygu'r cytundeb yn rheolaidd, ac adolygu perfformiad pob partner er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

4 Ers mis Mawrth 2020, mae pandemig COVID-19 ac, yn fwy diweddar, Argyfwng Ffoaduriaid Wcráin a'r argyfwng costau byw wedi bod yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaeth digartrefedd y Cyngor. Maent hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref, ac mae nifer y bobl sy'n ddigartref yn anfwriadol a'r bobl y mae angen blaenoriaethol arnynt wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o 56 yn Chwarter 3 2020–21 i 113 yn Chwarter 4 2021–22.

5 Mae'r cynnydd hwn wedi arwain y Cyngor i ddod o hyd i lety argyfwng newydd dros dro. Mae angen cymorth ychwanegol i reoli cyfleusterau o'r fath er mwyn osgoi cysgu allan. Hefyd, bu cynnydd o 123% yng nghyfanswm yr aelwydydd sydd mewn llety Gwely a Brecwast yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o 60 yn Chwarter 3 2020–21 i 134 yn Chwarter 4 2021–22.

6 Yn ystod rhan olaf 2021, hyd at y diwrnod presennol, mae'r Cyngor wedi bod yn wynebu sawl risg allanol sy'n effeithio'n negyddol ar nifer yr aelwydydd sy'n gofyn i'r gwasanaeth digartrefedd am gymorth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diwedd cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU;
- diwedd y Credyd Cynhwysol atodol;
- costau cyfleustodau cynyddol, chwyddiant sy'n codi;
- deddfwriaeth newydd/sy'n newid megis Deddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016) a'r potensial y bydd cysgu allan yn dod yn angen blaenoriaethol; a
- niferoedd cynyddol o ffoaduriaid Wcreinaidd a cheiswyr lloches eraill.

---

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd, Ionawr 2018.

7 Mae'r pwysau hyn hefyd wedi effeithio'n negyddol ar allu'r Cyngor i atal digartrefedd, gyda lleihad yng nghanran yr aelwydydd yr ataliwyd rhag bod yn ddigartref o 73.1% yn 2019–20 i 62.18% yn 2021–22.

8 Fel y noda adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018, mae digartrefedd 'yn fwy na phroblem tai gyda llawer o'r hyn sy'n achosi digartrefedd y tu allan i reolaeth a dylanwad gwasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, yr awdurdod lleol sydd â'r ddyletswydd statudol i atal ac i fynd i'r afael â digartrefedd.' O dan Ddeddf Tai 2014, ceisiodd Llywodraeth Cymru gydweithio, er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael â digartrefedd yn ehangach na gwasanaeth tai awdurdodau lleol ac mae angen i ymateb amlasiantaeth fod yn wirioneddol effeithiol.

9 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddogfennu eu cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yn ei Strategaeth Rhaglen Cefnogi Tai ac yn fwy diweddar, yn ei Chynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. Mae'n rhaid i'r ddau gynllun adlewyrchu'r swyddogaeth hanfodol y bydd gweithio mewn partneriaeth effeithiol yn ei chael ar leihau digartrefedd.

10 Felly, mae ein hadolygiad wedi ceisio ateb y cwestiwn: Wrth geisio mynd i'r afael â digartrefedd, a yw'r Cyngor yn addasu ei fwriad strategol yn effeithiol er mwyn darparu dull ataliol cynaliadwy hirdymor? Gan fod archwilio sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i gyflawni ei uchelgeisiau digartrefedd yn faes pwyslais allweddol i'r adolygiad

11 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod y cyfnod rhwng Mai 2022 ac Awst 2022. Roedd ein gwaith yn cynnwys adolygu dogfennau, holi staff, Cynghorwyr a phartneriaid, a hwyluso gweithdy gyda phartneriaid digartrefedd allweddol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

12 Daethom i'r casgliad bod mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw wedi datblygu dull cynaliadwy ac ataliol yn llawn i gyflawni hyn.

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae digartrefedd yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor. Mae wedi amlinellu ei uchelgais mewn sawl cynllun strategol sydd ganddo ac mae'n bwriadu parhau i ddatblygu gyda'i bartneriaid allweddol.
- mae llawer o faterion cymhleth ac anodd sy'n wynebu'r digartref yng Nghaerffili, ac er bod y Cyngor yn ymwybodol ohonynt, nid yw wedi gweithredu ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hyn yn llawn hyd yn hyn..
- mae angen gwneud mwy, gan adeiladu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio gwaith ataliol integredig gyda phartneriaid, i fynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd yn y dyfodol.
- mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol â llawer o'i bartneriaid. Mae rhai wedi nodi meysydd y gellid eu gwella ymhellach i helpu i atal a lleihau digartrefedd nad yw'r Cyngor wedi eu gweithredu eto.

- mae'r Cyngor ceisio cynyddu ei adnoddau yn rhagweithiol, ac mae'n datblygu ei ddealltwriaeth o'i ofynion am adnoddau yn y dyfodol.
- mae gan y Cyngor fframwaith er mwyn monitro a gwerthuso ei gynnydd ar ei uchelgais digartrefedd. Fodd bynnag, rhwystrir effeithiolrwydd hyn gan ddiffyg cerrig milltir a thargedau clir.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion**<br><br>**Er mwyn gwella gallu'r Cyngor i ddeall ei berfformiad a sbarduno gwelliant, dylai'r Cyngor:** |
|---|
| **Argymhelliad 1 — cryfhau ei broses gynllunio a'i waith o fonitro digartrefedd drwy:**<br>• ddefnyddio rhagolygon a data meincnodi yn well;<br>• gosod gweledigaeth tymor hwy clir i ddiwallu anghenion sy'n newid;<br>• datblygu cerrig milltir a thargedau clir i asesu ei gynnydd;<br>• nodi mesurau i werthuso effaith ei weithgarwch ataliol; a<br>• sicrhau bod yr adnoddau tymor canolig i hirdymor sy'n ofynnol yn cael eu hadlewyrchu yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| **Argymhelliad 2 — parhau i weithio gyda'i bartneriaid (mewnol ac allanol) i fynd i'r afael â rhai meysydd allweddol i'w gwella, megis:**<br>• ymgysylltu â phartneriaid yn gynharach wrth ddatblygu cynlluniau, strategaethau a datblygiadau allweddol;<br>• nodi cyfleoedd i wella cyflawnrwydd a phrydlondeb gwybodaeth a rennir;<br>• asesu'r cyfleoedd i wella llwybr y troseddwyr; a<br>• gwella'r ddeialog â phartneriaid ynghylch beth yw 'cynnig rhesymol o lety'. |

# Adroddiad manwl

## Mae mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw wedi datblygu dull cynaliadwy ac ataliol yn llawn i gyflawni hyn

### Mae digartrefedd yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor. Mae wedi amlinellu ei uchelgais mewn sawl cynllun strategol sydd ganddo ac mae'n bwriadu parhau i ddatblygu gyda'i bartneriaid allweddol

**Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:**

14 Mae atal digartrefedd yn un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor yng Nghynllun Corfforaethol presennol 2018–2023. Mae gan Aelod o'r Cabinet bortffolio penodol ar gyfer Tai, sy'n cynnwys digartrefedd. Dylai hyn sicrhau bod y maes hwn yn parhau i fod â phroffil strategol.

15 Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i adeiladu rhagor o lety Cyngor a llety fforddiadwy erbyn 2025. Mae wedi dweud y bydd diwallu anghenion pobl ddigartref yn rhan o'i raglen ddatblygu.

16 Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor sawl strategaeth a chynllun presennol. Er enghraifft, y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a'r Strategaeth Tai Lleol. Mae'r rhain yn amlinellu dull ac uchelgeisiau'r Cyngor sy'n ymwneud â digartrefedd.

17 Mae'r Cyngor wedi datblygu'r Strategaeth Tai Lleol a'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ar y cyd â phartneriaid, er bod y pandemig wedi effeithio ar y dulliau ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddiwyd yn enwedig ar gyfer y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

18 Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym fod ei Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi ei ddatblygu gyda thrafodaethau unigol â rhanddeiliaid a phartneriaid. Gwnaeth rhai o'r partneriaid y buom yn ymgysylltu â nhw yn rhan o'n gwaith gadarnhau hyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cynllun terfynol yn cael ei lunio a'i lywio gan grŵp llawer ehangach o randdeiliaid, mae'n cynnig sefydlu Grŵp Partneriaeth Strategol. Nid oedd y grŵp hwn wedi ei sefydlu adeg ein gwaith. Bydd ymgysylltu â Phartneriaid ynghylch dylunio a darparu ei Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn hanfodol os bydd dull amlddisgyblaeth/amlsector effeithiol o atal a lleihau digartrefedd.

19 Mae'r Cyngor yn y broses o ddrafftio sawl cynllun cefnogol, megis ei strategaethau Datblygu a buddsoddi i amlinellu agweddau ychwanegol ar ei fwriad strategol o amgylch digartrefedd. Bydd yn bwysig ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid yn gynnar wrth ddatblygu'r rhain. Roedd rhai partneriaid yn teimlo y gallai'r Cyngor

wneud mwy i’w cynnwys nhw yn gynharach yn ystod datblygiadau penodol, yn enwedig pan fydd gwasanaethau cymorth y bydd angen i eraill eu darparu hefyd.

## Mae llawer o faterion cymhleth ac anodd sy’n wynebu’r digartref yng Nghaerffili, ac er bod y Cyngor yn ymwybodol ohonynt, nid yw wedi gweithredu ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r materion hyn yn llawn hyd yn hyn

### Wrth ddod i’r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

20 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth ôl-weithredol a chyfredol well o’i sefyllfa o ran digartrefedd o’i wybodaeth fewnol ei hun a’r dadansoddiad o anghenion a wnaed ar gyfer y dogfennau allweddol diweddar megis y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a’r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

21 Mae rhai o’r ffactorau allweddol sy’n effeithio ar y sefyllfa o ran digartrefedd ar hyn o bryd yn y Fwrdeistref yn cynnwys:

- cymhlethdod cynyddol a nifer yr achosion o ddigartrefedd y mae’r Cyngor wedi eu hadrodd fel rhai sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant y staff. Mae’r Cyngor yn ceisio gwneud iawn am hyn drwy adolygu strwythurau ac adnoddau ar gyfer y gwasanaeth yn barhaus.
- diffyg stoc gwely sengl neu symud ymlaen, sef yr eiddo â’r galw uchaf ar hyn o bryd ymhlith y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae’r Cyngor, ynghyd â’r sector breifat, wedi datblygu llety gwely sengl fforddiadwy yn ddiweddar ac ar hyn o bryd mae’n gwerthuso safleoedd ar gyfer adeiladu mwy o lety.
- mae’r llety presennol yn anaddas yn aml, ac nid yw’n diwallu anghenion penodol tenantiaid. Mae hyn yn arwain at denantiaethau aflwyddiannus, gwaethygu materion iechyd meddwl ac effaith negyddol ar uchelgeisiau ataliol y Cyngor. Ar adeg ein gwaith, dywedodd y Cyngor wrthym ei fod wrthi’n adolygu addasrwydd y llety er mwyn deall y mater hwn yn llawnach. Nid ydym wedi gweld canlyniad yr adolygiad hwn.
- y niferoedd cynyddol sy’n ‘syrffio soffas’, er bod hyn yn risg anhysbys yn y dyfodol oherwydd yr anhawster wrth fesur y data hyn.
- cydnabyddiaeth efallai na fydd y Polisi Dyraniadau Cyffredin yn canolbwyntio’n briodol ar y bobl sydd â’r angen mwyaf. Ar adeg ein gwaith, roedd y Cyngor yn adolygu hyn.
- etifeddiaeth cynnydd sylweddol yn y defnydd o lety dros dro oherwydd y gofyniad a orfodwyd i ddarparu llety brys i bawb a oedd yn cysgu allan yn ystod y pandemig.
- materion allanol presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys: Argyfwng Ffoaduriaid Wcráin, yr Argyfwng Costau Byw, deddfwriaeth newydd megis Deddf Rhentu Cartrefi Cymru (2016) a’r posibilrwydd y bydd cysgu allan yn dod yn angen blaenoriaethol cyn bo hir. Mae’r rhain wedi cynyddu’r galw ar

wasanaeth tai/digartrefedd y Cyngor am gyflenwad llety sydd eisoes yn gyfyngedig y mae galw mawr amdano, a byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol hefyd. Dywedodd y Cyngor mai ymateb i'r Argyfwng Costau Byw yw ei brif bwyslais bellach a'i fod wedi dechrau cyfochri ei wasanaethau fel y gall ymateb yn fwy effeithiol. Bydd cefnogi tenantiaid i fanteisio i'r eithaf ar eu budd-daliadau yn gynyddol bwysig o ran helpu i leddfu'r pwysau ariannol yn ystod yr argyfwng hwn. Mae gan y Cyngor dîm penodol ar gyfer manteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau a lwyddodd i sicrhau cynnydd o fwy na £3 miliwn mewn budd-daliadau i denantiaid y llynedd.

22 Mae'r gwaith a wnaed gan Crisis yn ystod 2021 wedi rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr a gronynnog i'r Cyngor o'r amgylchedd digartrefedd a'i ddull o fynd i'r afael â'r materion. Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn y broses o ymateb i'r materion a godir yn adroddiad Crisis, gan nodi rhai buddugoliaethau cyflym a newidiadau mwy hirdymor y mae'n eu hintegreiddio i'w Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

23 Fodd bynnag, mae angen o hyd i'r Cyngor ddatblygu dealltwriaeth o'r rhagolygon digartrefedd yn y dyfodol os yw'n mynd i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y tymor hwy.

## Mae angen gwneud mwy, gan adeiladu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio gwaith ataliol integredig gyda phartneriaid, i fynd i'r afael â'r galw o ran digartrefedd yn y dyfodol

### Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

24 Mae cyllid Grant Cefnogi Tai Llywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu llawer o fentrau gyda'i bartneriaid mewnol ac allanol. Mae hyn er mwyn helpu i gefnogi ei ddull ataliol o gefnogi pobl ac o leihau digartrefedd.

25 Mae'r Cyngor wedi cydnabod, oherwydd y gorchymyn cenedlaethol i sicrhau nad oedd neb ar y strydoedd yn ystod COVID-19, ei fod wedi canolbwyntio'n fwy ar ymdrin â'r argyfwng uniongyrchol ac yn llai ar atal yn ystod y cyfnod hwn. Felly, bydd angen mwy o bwyslais ar ddulliau ataliol os yw'n mynd i ddechrau ymdrin â'r cynnydd yn y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'r rhai sydd yn dod yn ddigartref.

26 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad strategol i ganolbwyntio ar atal. Mae hyn yn glir yn ei Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym sy'n dweud ei fod yn dymuno 'Canolbwyntio ar ymyrryd ac atal Digartrefedd yn gynnar a fydd yn cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithio gydag aelwydydd i gael canlyniad llwyddiannus cadarnhaol cyn y bydd rhaid iddynt fynd i mewn i lety dros dro interim.'

27 Mae'r Cyngor hefyd wedi dweud ei fod yn bwriadu sicrhau bod rhagor o bwyslais ar nodi a diwallu anghenion penodol ei dinasyddion ac y bydd hyn yn allweddol i'w ddull ataliol. I gefnogi hyn, mae wedi ymrwymo yn ei Gynllun Pontio Ailgartrefu

Cyflym i ystyried sefydlu hyb asesu canolog amlddisgyblaeth a gydleolir. Bydd hyn yn darparu mwy o dai a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn deall yn well anghenion y rhai y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt.

28 Mae gwasanaeth mynediad newydd y Cyngor, 'Gofalu am Gaerffili', a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig i ddechrau, wedi llwyddo i gefnogi unigolion a'u hatal rhag bod yn ddigartref. Ar adeg ein gwaith, roedd y Cyngor yn ystyried model Gofalu am Gaerffili yn rhan o'r llwybr atgyfeirio o'r Bwrdd Iechyd er mwyn cyflymu'r broses o ryddhau cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i fesur effaith y gefnogaeth hon a'r ymyriadau atal ehangach, o ran costau sydd wedi eu hosgoi, gwell llesiant, a gostyngiadau mewn digartrefedd.

29 Mae Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor yn mesur 'canran yr aelwydydd a atelir rhag bod yn ddigartref' wedi gweld perfformiad negyddol, gan ostwng o 73.1% yn 2019–20 i 62.18% yn 2021–22. Mae asesiad y Cyngor ei hun o'r rhesymau dros y gostyngiad hwn oherwydd effaith COVID-19 ar wasanaethau allweddol i gefnogi digartrefedd. Er na chafodd Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus eu casglu ledled Cymru yn ystod 2020 a 2021, bydd yn bwysig bod y darlun hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Cynghorau eraill.

30 Mae llawer o grwpiau rhanbarthol sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gynllunio a dull y Cyngor o fynd i'r afael â digartrefedd megis; Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Grŵp Comisiynu Cymorth Tai Gwent, Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent, ac Is-grŵp, Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol y Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol. Fodd bynnag, heblaw am Grŵp Cydweithredu i Gefnogi Tai Rhanbarthol Gwent, ymddengys fod gan y graddau y mae pwyslais rhanbarthol penodol a chydweithrediad presennol o amgylch mynd i'r afael â digartrefedd lai o broffil nag oedd ganddynt yn y blynyddoedd blaenorol. Cydnabyddir y bydd y pandemig, a'r gofyniad i gael pwyslais lleol mewn cynlluniau fel y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, wedi cyfrannu at hyn.

## Mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol â llawer o'i bartneriaid. Mae rhai wedi nodi meysydd y gellid eu gwella ymhellach i helpu i atal a lleihau digartrefedd nad yw'r Cyngor wedi eu gweithredu eto

### Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

31 Fod partneriaethau mewnol allweddol yn y Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau digartrefedd, megis rhai rhwng y Gwaith Cymorth Tai a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai a rhan Digartrefedd y Gwasanaeth Tai, sydd wedi eu hintegreiddio'n dda. Mae hyn er eu bod mewn dwy ardal wasanaethau gwahanol, er eu bod o dan yr un cyfarwyddwr.

32 Ar y cyfan, roedd y partneriaid yr oeddem yn gallu ymgysylltu â nhw yn rhan o'n gwaith yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u perthynas â'r Cyngor. Rhoddodd partneriaid sawl enghraifft o brosiectau digartrefedd a rennir, gan adlewyrchu ar eu gallu i

ymgysylltu â swyddogion y Cyngor o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid oedd pob partner ar gael ar gyfer cyfweliad neu fe'u cynrychiolwyd yn ein gweithdy Partner.

33 Nododd ein gwaith sawl enghraifft o weithio'n gadarnhaol gyda Phartneriaid o amgylch digartrefedd. Gan gynnwys:

- y prosiect adeiladu newydd ar y cyd a gwblhawyd yn ddiweddar gyda'r sector preifat (Willmott Dixon) i adeiladu fflatiau un gwely fforddiadwy sy'n effeithlon o ran ynni ar gyfer y dyfodol.
- gweithio gyda landlordiaid preifat drwy raglen Allweddi Caerffili, i gefnogi landlordiaid a thenantiaid i gynnal tenantiaethau yn y farchnad rhentu preifat.
- mentrau a ariennir o dan y Grant Cymorth Tai, gan gynnwys y swyddogaethau a ariennir ar y cyd gan Iechyd a'r Cyngor. Er enghraifft, yr Ymarferydd Nyrsio a leolir mewn meddygfa sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl ddigartref. Hefyd, mae tîm a leolir mewn darparwr gofal arbenigol yn gweithredu fel pont rhwng, Iechyd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd Meddwl, a gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion cymhleth rhag bod yn ddigartref.
- staff seicoleg a leolir mewn uned ddigartrefedd, lle maent wedi darparu gwasanaeth rhithiol i ddeall yr achos sylfaenol y tu ôl i pam fo rhywun yn ddigartref. Mae partneriaid wedi defnyddio'r wybodaeth hon i nodi a chefnogi anghenion penodol er mwyn lleihau'r siawns y bydd yr unigolion hyn yn mynd yn ddigartref eto.
- y berthynas ragweithiol rhwng tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y Bwrdd Iechyd a thimau cymorth tai a Digartrefedd y Cyngor. Mae enghraifft dda o hyn yn natblygiad ar y cyd y broses newydd o ryddhau cleifion o'r wardiau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Roedd yn canolbwyntio ar wella prydlondeb asesiadau a lleihau'r risg o ddigartrefedd, a dywedwyd wrthym ei fod yn dangos rhai manteision cynnar.
- datblygu proses gorchymyn rhyddhau o ddyled ar y cyd â'r Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r tîm digartrefedd, a fydd yn cefnogi tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent ac sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartref.

34 Pan ysgogwyd partneriaid i ganolbwyntio ar gyfleoedd i wella, roedd eu myfyrdodau allweddol yn cynnwys:

- rhai gwasanaethau a gomisiynwyd yn teimlo nad yw eu llais yn cael ei glywed bob amser ac nad oes neb yn gwrando arno.
- cyfleoedd i'r Cyngor sefydlu ymgysylltiad cynharach. Er enghraifft, ymwneud yn gynharach â datblygiadau arfaethedig, yn benodol, pan fydd gofyniad am wasanaethau cymorth a rennir yn y dyfodol.
- cais y dylai'r Cyngor ymdrechu i ddeall yn well angen defnyddwyr y gwasanaeth cyn gwneud eu 'cynnig rhesymol' o lety i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- cydnabyddiaeth bod rheoli yr angen hirdymor o'i gymharu â'r tymor byr yn heriol. Mae'r sefyllfa bresennol wedi gorfodi pob partner i fod yn fwy

adweithiol na rhagweithiol, fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio'n fwy ar waith rhagweithiol yn awr.

- angen i wella'r llifau gwybodaeth mewn rhai meysydd. Er enghraifft, roedd partneriaid yn teimlo nad yw agweddau ar y system ddyraniadau presennol yn gweithio cystal ag y dylent, gan nodi pryderon dros rannu gwybodaeth annigonol am denantiaid â phartneriaid. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at roi tenantiaid mewn lleoliad amhriodol a/neu unigolion nad oes ganddynt y gefnogaeth gywir o'u cwmpas, gan arwain at eu hanghenion yn dod yn fwy cymhleth a thenantiaethau yn dod yn anghynaladwy.
- pryderon ynghylch effeithiolrwydd y llwybr troseddwyr presennol, a'r angen i adolygu hyn. Bydd yn bwysig bod ymateb y Cyngor i'r pryder hwn yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym sy'n dweud, 'Mae adolygu'r llwybr presennol ar gyfer troseddwyr gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol yn dal i fod yn adlewyrchol ac yn gyfredol.' Rhoddir blaenoriaeth i 'ystyried cyflogi swyddog troseddwyr penodol yn y Tîm Atebion Tai i wella'r cydweithrediad rhwng yr asiantaethau'.

35 Er gwaethaf y nifer o enghreifftiau cadarnhaol o bartneriaid yn gweithio, roedd rhai meysydd eraill hefyd lle nododd ein gwaith gyfleoedd am welliant o amgylch partneriaethau mewnol ac allanol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- presenoldeb amrywiol yn y Grŵp Comisiynu Cymorth Tai lleol gan bartneriaid allweddol, megis Gwasanaethau Prawf, yr Heddlu ac Iechyd;
- cyfyngiadau yn y berthynas â gweddill y Bwrdd Iechyd, heblaw am y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Dysgu;
- yr angen i ymgysylltu ag Aelodau yn gynharach yn y broses ar gyfer datblygiadau llety posibl sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â digartrefedd; ac
- nid yw gwybodaeth am y llwybrau digartrefedd a'r cymorth mor glir ag y gallai fod i gwsmeriaid allanol a mewnol ac felly mae risg o oediadau posibl wrth i ddinasyddion sy'n agored i niwed gael gafael ar y gwasanaethau cymorth cywir.

## Mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu ei adnoddau yn rhagweithiol, ac mae'n datblygu ei ddealltwriaeth o'i ofynion am adnoddau yn y dyfodol

### Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

36 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael gafael ar arian ychwanegol o wahanol grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi rhai o'u mentrau digartrefedd. Ar adeg ein hadolygiad, roedd wrthi'n chwilio am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru am grant cyfalaf penodol i helpu ag argyfwng ffoaduriaid Wcráin, a chyda cheisiadau am Gronfa Gwelliannau Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n pwysleisio ar ddigartrefedd. Mae ceisiadau llwyddiannus eraill am gyllid yn cynnwys y £3.1 miliwn gan Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru i gefnogi ei

phrosiect partneriaeth â Willmott Dixon i adeiladu 18 o unedau gwely sengl newydd yn y fwrdeistref.

37 Oherwydd y pandemig, mae cost llety Gwely a Brecwast dros dro i'r Cyngor ar ei lefel uchaf erioed. Er bod Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru wedi talu'r gost hon yn rhannol, daeth y cyllid hwn i ben ym mis Mawrth 2022 a dim ond grant llai a ddarparwyd. Felly, mae cynnal y gost gynyddol o ddarparu llety gwely a brecwast dros dro yn golygu mwy o bwysau ariannol parhaus ar adnoddau'r Cyngor.

38 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnwys cynnig o ychwanegu at ei Gronfeydd Wrth Gefn a Neilltuwyd ar gyfer COVID-19 nes iddynt gyrraedd hyd at £5 miliwn. Mae hyn er mwyn talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pandemig yr aed iddynt dros y tymor byr i'r tymor canolig, gan gynnwys y costau hynny sy'n ymwneud â digartrefedd.

39 Mae cefnogaeth Aelodau dros uchelgais strategol y Cyngor ynghylch digartrefedd, megis datblygu rhagor o lety gwely sengl, ond nid yw'r costau wedi eu diffinio'n llawn eto ac maent yn dal i gael eu cymeradwyo gan Aelodau. Er gwaethaf hyn, cymeradwyodd y weinyddiaeth flaenorol y gellid neilltuo £30.2 miliwn i hybu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Fframwaith Llesiant a Llunio Lleoedd y Cyngor, sy'n cynnwys datblygu llety fforddiadwy. Fodd bynnag, bydd y darlun hirdymor llawn ar yr adnoddau y bydd eu hangen yn y dyfodol i gyflawni dull y Cyngor o fynd i'r afael â digartrefedd yn dod yn gliriach wrth i ddogfennau strategol allweddol, megis ei Strategaeth Datblygu/Buddsoddi a'i dealltwriaeth o angen a chanlyniadau disgwyliedig y dyfodol gael eu gorffen.

40 Mae'r Cyngor wedi dweud y bydd y Cynllun Corfforaethol newydd, yn cynnwys pwyslais ar ddigartrefedd. Bydd yn bwysig bod unrhyw gynigion ynghylch digartrefedd a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol newydd a chynlluniau a strategaethau digartrefedd eraill yn cael eu hadlewyrchu'n llawn gyda'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol yn cyfateb i uchelgais y Cyngor.

41 Mae uwch-swyddogion allweddol yn y tîm Tai yn gymharol newydd yn y swydd ac, ar hyn o bryd, maent yn archwilio strwythurau a dyluniad gwasanaeth Cartrefi Caerffili (Y Gyfarwyddiaeth Dai), i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu Strategaeth Tai Lleol, y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a Chynlluniau Cyflawni. Er bod hyn yn dal i fod ar y gweill, mae'n debygol y bydd yr archwiliad hwn yn arwain at gais am adnoddau ychwanegol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen cymeradwyo achos busnes a fydd yn cael ei flaenoriaethu o'i gymharu ag adnoddau eraill y Cyngor sy'n cystadlu.

## Mae gan y Cyngor fframwaith er mwyn monitro a gwerthuso ei gynnydd ar ei uchelgais digartrefedd. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd hyn wedi'i effeithio gan ddiffyg cerrig milltir a thargedau clir

Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

42 Mae gan y Cyngor fframwaith er mwyn monitro a gwerthuso ei gynnydd ar ei uchelgais digartrefedd. Er bod gan y gyfres bresennol o Strategaethau a Chynlluniau bwyslais tymor byr a chanolig, mae llawer o'r mentrau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r angen dros y tymor hwy.

43 Digartrefedd yw un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cyfarwyddiaeth Cartrefi Caerffili ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd yn rhan o Fframwaith Asesu Perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith asesu hwn yn cynnwys cerrig milltir a metrigau tymor canolig i dymor hwy, sy'n golygu nad yw'r Cyngor yn gallu asesu'n glir y cynnydd y mae'n ei wneud ar fynd i'r afael â'i uchelgeisiau digartrefedd.

44 Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mynd â'i Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym gerbron y Cabinet (7 Medi 2022). Cadarnhaodd y bydd hyn yn disodli'r Cynllun Prosiect Digartref a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021, sy'n amlinellu blaenoriaethau ac amcanion meysydd gwasanaeth allweddol ar gyfer y Tîm Atebion Tai. Mae hefyd wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu datblygu ei Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym terfynol yn gynllun mwy lleol a fydd yn dod yn gynllun trosfwaol ar gyfer digartrefedd, ac y bydd hyn yn cynnwys cerrig milltir a chanlyniadau penodol i'w alluogi i fesur ei gynnydd.

45 Mae rhai enghreifftiau lle defnyddiwyd data meincnodi, er enghraifft, ar gyfer datblygu'r Strategaeth Tai Lleol. Fodd bynnag, o 2018–19 yr oedd y data hyn. Prin oedd yr enghreifftiau eraill o ddata meincnodi digartrefedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i ddeall yn well gyfleoedd i wella gwasanaethau. Er bod y casgliad cenedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, gan gynnwys y rhai o amgylch digartrefedd a ataliwyd dros dro oherwydd COVID-19, mae data eraill y mae'n ofynnol adrodd arnynt o dan y Ddeddf Tai (Cymru), ar gael ledled Cymru. Gallai'r Cyngor ddefnyddio hyn yn well wrth iddo ddatblygu ei ddull o atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

46 Mae'r aelodau yn gallu gweld y cynnydd ar fentrau/gwasanaethau penodol, megis Gofalu am Gaerffili, ac roedd y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cymdeithasol yn craffu ar y perfformiad blynyddol diweddaraf ym mis Mawrth 2022.

47 Mae'r Gyfarwyddiaeth Tai yn buddsoddi mewn ateb TG Tai newydd y gobeithir y bydd yn darparu data mwy gronynnog o amgylch Tai a digartrefedd i gefnogi ei phenderfyniadau. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi creu swydd newydd yn ddiweddar i edrych yn benodol ar wella data tai, gan ganolbwyntio ar y graddau y maent yn addas i'w diben ac unrhyw fylchau data posibl i helpu i gefnogi gwell dealltwriaeth o berfformiad.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.